Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad arolygiad monitro blynyddol ar

# Tŷ Cariad

## Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2017

## by

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi.  Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW  neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**© Hawlfraint y Goron 2017:  Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.  Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi:  23/03/2017**

## Cyd-destun

Mae Tŷ Cariad yn ysgol annibynnol gofrestredig a agorodd ym mis Hydref 2013. Mae'r ysgol yn gweithredu o fewn cartref bach i blant ac mae'n darparu addysg i hyd at dri o ddisgyblion 11 i 19 oed sy'n preswylio yn y cartref. Mae llety'r ysgol mewn tŷ ar wahân mewn lleoliad gwledig yn ne Sir Benfro. Mae cyflwr da iawn i'r eiddo. Mae un ystafell yn y tŷ wedi'i neilltuo'n ystafell ddosbarth.

Ar hyn o bryd, mae tri disgybl ar gofrestr yr ysgol. Mae gan yr holl ddisgyblion ddatganiad o anghenion addysgol arbennig ac maent yn derbyn gofal gan eu hawdurdod lleol. Mae'r holl ddisgyblion wedi'u lleoli gan awdurdod lleol Sir Benfro.

Ers yr ymweliad monitro blynyddol diwethaf, mae'r pennaeth amser llawn wedi'i benodi'n bennaeth parhaol yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

### Cryfderau

Mae'r holl ddisgyblion yn mynychu'r ysgol yn rheolaidd.

Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda iawn mewn gwersi ac o gwmpas yr ysgol. Maent yn ymateb yn dda i'r cymorth a'r anogaeth gyson gan staff.

Mae gan staff ddealltwriaeth drylwyr o ddiddordebau ac anghenion disgyblion. Gosodant ddisgwyliadau uchel o ran presenoldeb, ymddygiad a sylw mewn gwersi.

Mae amserlenni unigol yr ysgol yn cynnig amrywiaeth o weithgareddau dysgu priodol i'r disgyblion, sy'n cael eu paru'n dda â'u hanghenion a'u galluoedd.

Mae gan yr ysgol gysylltiadau gwerth chweil ag ychydig fusnesau lleol sy'n cynnig cyfleoedd profiad gwaith gwerthfawr i ddisgyblion hŷn.

Mae'r ysgol wedi mynd i'r afael â'r materion yn ymwneud â rheoli dogfennau, gan gynnwys polisïau pwysig, yn briodol.

Mae'r trefniadau ar gyfer hunanarfarnu a chynllunio ar gyfer gwelliannau yn datblygu'n briodol. Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi llunio adroddiad hunanarfarnu addas yn seiliedig ar fframwaith Estyn. Mae cysylltiadau clir yn datblygu rhwng y meysydd i'w datblygu sydd wedi'u hamlygu yn yr adroddiad hunanarfarnu a chynllun datblygu'r ysgol.

## Meysydd i'w datblygu

Yn gyffredinol, mae'r ysgol yn cynnig dewis cyfyngedig iawn o gyfleoedd achrededig i ddisgyblion.

Nid yw'r cynllunio ar gyfer medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) y disgyblion wedi'i ddatblygu'n ddigonol.

Nid yw'r trefniadau pontio ar gyfer disgyblion hŷn ag anghenion cymhleth wedi'u datblygu'n ddigonol.  Er enghraifft, nid yw'r cyfleoedd i fynychu cyrsiau blasu a sefydlu yn y sefydliad addysg bellach lleol yn ddigonol.

Nid oes gan yr ysgol fframwaith ffurfiol ar gyfer mesur ac olrhain y cynnydd a wna'r disgyblion mewn pynciau ar draws y cwricwlwm.  O ganlyniad, nid yw'r ysgol yn defnyddio data'n ddigonol wrth ddadansoddi cynnydd disgyblion yn yr ysgol.

## Argymhellion

A1 Sicrhau ei bod yn cydymffurfio â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003

A2 Datblygu cyfleoedd i ddisgyblion ennill achrediad priodol ar gyfer eu dysgu

A3 Gwella'r cynllunio ar gyfer datblygu medrau TGCh disgyblion ar draws y cwricwlwm

A4 Cryfhau'r trefniadau pontio gyda darparwyr addysg lleol ar gyfer disgyblion ôl-16

## Cynnydd wrth fynd i'r afael ag argymhellion o nodyn ymweliad neu adroddiad arolygiad blaenorol

**Argymhelliad 1: Sicrhau ei bod yn cydymffurfio â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth.

Mae'r ysgol wedi mynd i'r afael â'r rhan fwyaf o'r materion cydymffurfio a amlygwyd yn yr ymweliad monitro blynyddol blaenorol. Fodd bynnag, mae ychydig bach iawn o faterion cydymffurfio yn parhau heb eu datrys. Nid yw'r ysgol wedi gweithredu system i olrhain a monitro'r cynnydd a wna disgyblion ar draws y cwricwlwm eto.

**Argymhelliad 2: Gwella'r ddarpariaeth ar gyfer rhifedd trwy gynyddu cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau trafod data a dysgu am siâp, gofod a mesur**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth.

Mae'r ysgol wedi gwella'r cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau trafod data a dysgu am siâp a mesur ar draws y cwricwlwm. Mae'r athro'n darparu cyfleoedd priodol i ddisgyblion ddatblygu eu medrau rhifedd mewn gwersi a'u hymarfer mewn sefyllfaoedd go iawn. Er enghraifft, yn ystod sesiynau coginio, mae disgyblion yn defnyddio eu medrau mesur yn briodol gyda chymorth gan staff.

**Argymhelliad 3: Gwella cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau TGCh ar draws y cwricwlwm**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn rhannol.

Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi buddsoddi'n sylweddol mewn diweddaru ei hoffer TGCh. Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar eto i arfarnu ei effaith ar wella safonau disgyblion. Nid yw cynlluniau addysg unigol a chynlluniau gwaith yn nodi meysydd na thargedau penodol i ddatblygu medrau TGCh disgyblion. O ganlyniad, nid yw'r cyfleoedd ar gyfer datblygu'r medrau hyn mewn gwersi ar draws y cwricwlwm wedi'u datblygu'n ddigonol.

**Argymhelliad 4: Datblygu system drylwyr o hunanarfarnu gan yr ysgol sy'n manteisio ar fonitro pob agwedd ar waith yr ysgol yn effeithiol**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn rhannol.

Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi dechrau datblygu trefniadau priodol ar gyfer hunanarfarnu, gan gynnwys defnyddio tystiolaeth uniongyrchol addas, fel arsylwadau gwersi ffurfiol. Yn gyffredinol, mae'r adroddiad hunanarfarnu yn arfarniad gonest o gryfderau'r ysgol a'i meysydd i'w datblygu. Fodd bynnag, mae'r ysgol yn gwneud defnydd cyfyngedig ar ddata sydd ar gael, fel data presenoldeb, ymddygiad ac asesu i arfarnu cynnydd disgyblion a llywio'i phrosesau ar gyfer hunanarfarnu a gwella'r ysgol.

**Argymhelliad 5: Sicrhau bod polisïau'r ysgol yn cael eu hadolygu'n effeithiol a'u rhannu gyda staff, eu bod yn adlewyrchu arfer o ddydd i ddydd a'u bod yn ystyried arweiniad diweddaraf Llywodraeth Cymru**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth.

Mae'r pennaeth newydd ei benodi wedi diweddaru llawer o bolisïau allweddol yr ysgol yn ddiweddar. Mae'r polisïau hyn bellach yn adlewyrchu arfer o ddydd i ddydd yn yr ysgol ac yn ystyried arweiniad diweddaraf Llywodraeth Cymru. Caiff polisïau eu rhannu gyda staff yn ystod cyfarfodydd staff.

## Cydymffurfio â'r safonau ar gyfer cofrestru

### Safon 1:  Ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol

Nid yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon yn llawn.  Er mwyn cydymffurfio'n llawn â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003, dylai'r ysgol:

- sefydlu fframwaith i werthuso perfformiad y disgyblion, naill ai yn ôl amcanion yr ysgol ei hun fel y'u darparwyd i'r rhieni, a/neu yn ôl y safonau cenedlaethol arferol [1(4)]

### Safon 2:  Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth i awgrymu nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon.

### Safon 3: Lles, iechyd a diogelwch disgyblion

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth i awgrymu nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon.

### Safon 4: Addasrwydd perchnogion a staff

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth i awgrymu nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon.

### Safon 5:  Eiddo a llety preswyl mewn ysgolion

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 5

### Safon 6:  Darparu gwybodaeth

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth i awgrymu nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon.

### Safon 7:  Y modd yr eir i'r afael â chwynion

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth i awgrymu nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon.

## Argymhellion ynghylch cofrestru

Wrth ystyried cofrestriad yr ysgol hon, gallai Cynulliad Cenedlaethol Cymru ddymuno ystyried yr argymhelliad canlynol:

Nid yw'r ysgol yn bodloni gofynion Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003 ar hyn o bryd.  I gydymffurfio'n llawn â'r gofynion hyn, dylai'r ysgol fynd i'r afael â'r materion a nodwyd uchod ar gyfer pob safon.

Ni ddylai barnau arolygwyr ar yr arolygiad monitro blynyddol hwn niweidio canfyddiadau arolygiad Adran 163 llawn yn y dyfodol.

## Gwybodaeth am yr ysgol

| | |
|---|---|
| **Ysgol** | Tŷ Cariad |
| **Rhif yr ysgol** | 6686019 |
| **Diben yr ymweliad** | Arolygiad monitro blynyddol |
| **Dyddiad yr ymweliad** | 18/01/2017 |
| **Perchennog** | United Care Wales |
| **Staff** | 1 pennaeth sy'n addysgu, 1 cynorthwyydd cymorth dysgu amser llawn ac 1 cynorthwyydd cymorth dysgu rhan-amser.  Mae gan yr holl staff gofal, heblaw'r rheolwr cofrestredig, rôl a disgrifiad swydd ddeuol ac mae o leiaf un ohonynt yn cynorthwyo yn yr ystafell ddosbarth bob dydd |
| **Nifer y disgyblion** | 3 |
| **Darpariaeth** | Darpariaeth ddydd yn gysylltiedig â'r cartref plant sydd ynghlwm |
| **Math o angen addysgol arbennig y mae'r ysgol yn darparu ar ei gyfer** | Anhwylderau ar y sbectrwm awtistig ac anawsterau dysgu |
| **Arolygiad Adran 163 diwethaf** | |
| **Arolygiad monitro blynyddol diwethaf** | 04/01/2016 |
| **Arolygiad diwethaf gan AGGCC** | |

## Gwybodaeth am y tîm

| | |
|---|---|
| Margaret Davies | Arolygydd Cofnodol |
| Susan Roberts | Arolygydd Tîm |